# City & Guilds Rhaglen Sylfaen mewn Paentio ac Addurno Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu ystod o dechnegau peintio ac addurno lefel sylfaen.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn frwd am beintio ac addurno

... Hoffech hybu eich gwybodaeth a'ch sgiliau

... Hoffech gael hyfforddiant helaeth o ansawdd uchel

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn datblygu'r arbenigedd i weithio'n annibynnol ac yn sefydlu amgyffred cadarn o effeithiau addurniadol sylfaenol. Mae'n cwmpasu'r sgiliau canlynol:

Iechyd a Diogelwch
Egwyddorion adeiladu

Gosod a datgymalu offer mynediad a llwyfannau gwaith
Paratoi arwynebau ar gyfer addurno
Taenu systemau paent gyda brwsh a rholer
Taenu sylfaen a phapurau plaen
Cynhyrchu caboliadau addurniadol arbenigol

Addysgir y cwrs drwy sesiynau ymarferol a chyfleusterau gweithdy rhagorol a gwersi theori i ategu'r wybodaeth a ddysgwyd yn y sesiynau ymarferol.

Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Lefel 1mewn Peintio ac Addurno
Cymwysterau priodol cefnogol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y gymuned

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn ymuno â'r cwrs, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd E neu uwch arnoch, gan gynnwys Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae'n rhaid i chi fod eisiau gweithio yn y diwydiant adeiladu. Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunangymhelliant. Cewch eich asesu yn barhaus a disgwylir i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi ymgymryd ag asesiad diwydiant adeiladu er mwyn penderfynu ar y cwrs mwyaf priodol